
Canllawiau Mewnol S4C ar Ddefnydd o Regfeydd ac Ystumiau Tramgwyddus Mewn Darllediadau Teledu ac Ar-Lein

2017

Rhybudd: mae'r ddogfen hon yn cynnwys nifer o eiriau a allai beri tramgwydd.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Canllawiau hyn yn seiliedig ar ymchwil Ofcom ar agweddau at iaith ac ystumiau ar deledu a radio sydd o bosib yn sarhaus a gyhoeddwyd ym Medi 2016 (Saesneg yn unig. Gweler [yma](#).)
- 1.2 Mae'r Canllawiau hyn yn crynhoi ymatebion y panelwyr a gymerodd ran yn ymchwil iaith Saesneg Ofcom, ac yn cynnwys asesiad o dderbynioldeb termau Cymraeg (gan gynnwys cyfieithiadau o'r geiriau Saesneg a aseswyd yn ymchwil Ofcom a thermau unigryw Cymraeg) yn seiliedig ar egwyddorion yr ymchwil Saesneg.
- 1.3 Mae'r Canllawiau hyn yn darparu arweiniad ar i ba raddau y mae gwylwyr yn ystyried iaith ac ystumiau sydd o bosib yn sarhaus i fod yn dderbyniol neu'n annerbyniol yn gyffredinol.
- 1.4 Er bod ymchwil Ofcom yn canolbwyntio ar ddefnydd o iaith ac ystumiau ar deledu a radio, mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at ddefnydd ar blatfformau eraill megis cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn ogystal.

2. Pwysigrwydd y Cyd-destun

- 2.1 Mae asesu iaith sy'n 'sarhaus o bosib' yn gallu bod yn anodd oherwydd yr angen i wneud penderfyniad ar sail achosion unigol. Fel rhan o ymchwil Ofcom, ystyriodd y panelwyr nifer o ffactorau o ran cyd-destun, a oedd wedi'u seilio ar rai pryderon allweddol am iaith ac ystumiau. Y prif bryder oedd yr angen i ddiogelu plant ac i beidio â thramgwyddo neu frifo, yn arbennig grwpiau lleiafrifol. Roedd osgoi anesmwythder cymdeithasol personol a thramgwydd personol yn bryderon pwysig hefyd, ond rhoddwyd llai o bwyslais ar hyn yn gyffredinol. Roedd dymuniad cyffredinol i sicrhau fod teledu yn adlewyrchu bywyd go iawn mor bell â phosib, lle bo hynny'n briodol ac yn addas i'r gynulleidfa debygol.
- 2.2 Mae'r ffactorau cyd-destun canlynol yn bwysig wrth ddod i benderfyniad ar dderbynioldeb iaith.
- 2.3 **Amser y darllediad a/neu'r gynulleidfa bosib a thebygol**
 - 2.3.1 Ar gyfer darllediadau teledu, y ffactor bwysicaf sy'n pennu safbwyntiau'r gynulleidfa ar dderbynioldeb yw amser darlledu'r rhaglen neu'r cynnwys penodol. Gwneir cysylltiad uniongyrchol rhwng amser y darllediad a'r gwylwyr posib. Mae'r trothwy 9 o'r gloch yr hwyr yn hanfodol ar gyfer rheoli disgwyliadau ar iaith dramgwyddus, ond ystyrir peth iaith gymedrol i fod yn dderbyniol yn yr amser sy'n arwain at y trothwy.

- 2.3.2 Wrth gwrs, nid yw'r trothwy yn berthnasol ar gyfer cynnwys a gyhoeddir ar blatfformau eraill, megis y platfformau cyfryngau cymdeithasol a gwefannau eraill. Ar gyfer y cyfryngau hyn, dylid rhoi mwy o bwyslais ar y gynulleidfa debygol (yn hytrach nac amser y darllediad). (Gweler adran 3 isod am arweiniad pellach ar y platfformau.)
- 2.3.3 Dylid ystyried y gynulleidfa bosib (pob un y gellir disgwyl yn rhesymol i fod yn gwyllo'r cynnwys) yn ogystal â'r gynulleidfa debygol (y gynulleidfa mwyaf tebygol, o ystyried amser y darllediad ac/neu'r gynulleidfa darged). Yn gyffredinol mae gwylwyr yn eithaf ceidwadol ac yn ystyried taw y gynulleidfa *bosib* yw'r ystyriaeth bwysicaf wrth benderfynu ar dderbynioldeb. Ond rhoddir mwy o hyblygrwydd i sianeli arbenigol, rhaglenni sy'n annhebygol o apelio at blant cyn y trothwy, a'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n annhebygol o apelio at blant.

2.4 **Amllder neu ailadrodd iaith sy'n 'dramgwyddus o bosib'**

- 2.4.1 Mae ailadrodd yn gwaethygu effaith yr iaith. Mae hyn yn rhoi'r argraff fod y cynhyrchydd eisiau tynnu sylw at yr iaith trwy ei ailadrodd. Felly, ar bob achlysur, dylid ystyried a yw'r iaith a ddefnyddir yn ateb pwrpas neu'n ychwanegu at y cynnwys. Fe ddylai fod cyfiawnhad golygyddol dros gynnwys unrhyw iaith dramgwyddus, ni ddylai fod yn llenwi bwlch yn unig.
- 2.4.2 Mae aralleiriad (*substitutes*) i regfeydd a blîpio geiriau tramgwyddus yn llai derbyniol os gwneir hynny yn aml. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn deall beth oedd y rheg go iawn, ac felly mae effaith hynny yn debyg i ddefnyddio'r gair ei hun, yn enwedig os caiff ei ailadrodd. Felly dylid osgoi'r defnydd o flîpio gymaint â phosib (yn enwedig o fewn cynnwys 'Hansh').

2.5 **Disgwyliadau'r gynulleidfa o ran darlledwyr, cynnwys, genres a chyfryngau**

- 2.5.1 Mae safbwyntiau'n amrywio. Ystyrir bod iaith neu ystum sy'n mynd yn erbyn disgwyliadau'r gynulleidfa yn llawer llai derbyniol oherwydd fe allai achosi anesmwythder, syndod neu sioc.
- 2.5.2 Mae'r gynulleidfa yn disgwyl defnydd o iaith gryfach mewn rhai genres penodol ac ar adegau penodol. Nodir isod restr o genres amrywiol. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr ond mae'n dangos sut mae disgwyliadau'r gynulleidfa yn medru amrywio, ac yn pwyntio at y prif genres o raglenni lle bydd y gynulleidfa'n disgwyl iaith gref:
- rhoddir mwy o hyblygrwydd i ddramâu dwys (ar ôl y trothwy / ar gyfrifon sy'n annhebygol o apelio at blant) gan fod y gynulleidfa'n disgwyl i'r ddeialog adlewyrchu defnydd bywyd go iawn o iaith ac ystumiau tramgwyddus;
 - mewn cyd-destun addysgiadol, ystyrir bod defnydd o iaith hiliol cryf mewn cynnwys am hiliaeth yn dderbyniol os caiff ei ddefnyddio i adrodd ar fywyd go iawn. (Gellir ymestyn hyn i ddefnydd o iaith mwy cymedrol mewn rhaglenni dogfen cyn y trothwy);

- c) mae iaith gref mewn comedi i'w ddisgwyl ac i'w fwynhau gan y gynulleidfa. Dylai'r iaith fod yn unol â disgwyliadau'r gynulleidfa a dylid ei ddarlledu ar ôl y trothwy neu ar y cyfrifon sy'n annhebygol o apelio at blant.

2.5.3 Fel y nodwyd uchod, mae disgwyliadau'r gynulleidfa yn gysylltiedig ag amser y darllediad a/neu'r gynulleidfa debygol. Mae'r ffyrdd o liniaru (e.e. mewn ffurf rhybuddion neu ymddiheuriadau) yn helpu i reoli disgwyliadau'r gynulleidfa, yn enwedig os oes yna newid sydyn o gwmpas amser y trothwy, neu rhwng genres gwahanol.

2.5.4 Mae gan wylwyr ddisgwyliadau gwahanol ar gyfer sianeli teledu hir-sefydlog sydd ag apêl eang, fel BBC1 ac ITV. Ystyrir bod gan y sianeli hyn gynulleidfa ehangach ac nid ydynt yn disgwyl defnydd o iaith gref cyn y trothwy. Ar y llaw arall, rhoddir mwy o hyblygrwydd i sianeli fel Channel 4 a Channel 5 oherwydd bod y rhain yn gysylltiedig â diwylliant ifanc, arbrofi, a thôn llai ffurfiol.

2.5.5 Ar y cyfan, mae gan y gynulleidfa ddisgwyliadau mwy ceidwadol o sianeli teledu prif ffrwd (mae S4C hefyd yn disgyn i'r categori hwn) na sianeli mwy arbenigol.

2.6 Disgwyliadau'r gynulleidfa o ran cynnwys byw ac wedi ei recordio

2.6.1 Gellir goddef iaith gref achlysurol, damweiniol ar deledu byw cyn y trothwy neu ar gynnwys byw ar gyfrifon sy'n apelio at blant. Mae gwylwyr yn medru cydnabod bod yna gyfyngiadau ar reolaeth darlledwyr wrth ystyried rhaglenni byw, ac yn arbennig lle caiff cyfranwyr eu gwahodd ar raglen.

2.6.2 Ond mae iaith dramgwyddus mewn rhaglenni byw yn llawer llai derbyniol lle ystyrir bod darlledwyr proffesiynol wedi ymddwyn yn esgeulus neu wedi defnyddio iaith gref ar bwrpas.

2.7 Rôl camau lliniaru fel rhybuddion, blîpio neu ymddiheuriadau

Mae'r camau lliniaru gwahanol a ellir eu cymryd yn helpu i reoli disgwyliadau, cymedroli lefel y dramgwydd ac yn lleihau tebygolrwydd niwed, er enghraifft gan roi cymorth i rieni i reoli'r cynnwys y mae eu plant yn gwyllo. Ond ni ddylid defnyddio'r camau lliniaru hyn er mwyn cyfiawnhau defnydd gormodol o iaith dramgwyddus cyn y trothwy neu ar gyfrifon sy'n debygol o apelio at blant.

2.7.1 Mae rhybuddion yn hanfodol er mwyn dynodi'r math o iaith y gall gwylwyr ei ddisgwyl, ac er mwyn sicrhau bod modd iddyn nhw wneud dewis gwybodus (*informed*) ynglŷn â gwyllo'r cynnwys ai peidio.

2.7.2 Cyn y trothwy, dylid blîpio geiriau tramgwyddus mewn modd effeithiol. Ni ddylid gwneud defnydd gormodol oherwydd gall blîpio ailadroddus dynnu sylw at yr iaith gref, yn enwedig i blant.

2.7.3 Mae ymddiheuriadau yn dilyn defnydd o iaith dramgwyddus yn helpu i gynyddu derbynioldeb cyn y trothwy, yn enwedig yn achos defnydd damweiniol. Ond, rhaid

i ymddiheuriadau fod yn ddiffuant a rhaid ymddiheuro yn fuan wedi'r digwyddiad. Yn ddelfrydol, y person oedd yn gyfrifol ddylai wneud hynny.

2.8 Tôn a bwriad canfyddedig y cynnwys

- 2.8.1 Mae'r gynulleidfa yn debygol o ystyried y rhesymau pam, yn eu tyb hwy, y cafodd iaith sarhaus ei gynnwys. Ystyrir y rhaglen neu'r cynnwys yn ei gyfanrwydd a'r rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniadau golygyddol. E.e. ydi'r iaith yn adlewyrchu realiti, yn pwysleisio emosiwn golygfa arbennig, neu yn creu sioc? Bydd y gynulleidfa'n asesu a ellir cyfiawnhau'r penderfyniadau hynny, yn eu tyb hwy.
- 2.8.2 Mae tôn neu'r modd y caiff yr iaith dramgwyddus ei chyfleu yn medru cynyddu neu leihau derbynioldeb. Mae tôn ymosodol, maleisus, blin neu watwarus yn cynyddu effaith yr iaith, ac yn cynyddu ei ddwyster emosiynol. Mae iaith sy'n sarhaus o safbwynt crefyddol hefyd yn lleihau ei dderbynioldeb.

3. Platfformau S4C

Gan gymryd yr uchod i ystyriaeth ym mhob achos unigol, gellir dilyn y canllaw isod yn fras wrth ystyried platfformau a chyfryngau gwahanol S4C. (Gweler yr Atodiad am enghreifftiau o iaith 'gymedrol', 'canolig' a 'chryf'.)

3.1 Ar-sgrin (hyrwyddiadau)

- 3.1.1 Mae'r trothwy 9 o'r gloch yn hynod o bwysig wrth ystyried cynnwys sydd i'w ddarlledu ar S4C. Yn gyffredinol, mae'r gynulleidfa yn disgwyl i S4C gadw safonau uchel y gellir eu cymharu â disgwyliadau cynulleidfa'r BBC. Felly dylid cymryd agwedd geidwadol i iaith ac ystumiau tramgwyddus ar brif sianel deledu S4C.
- 3.1.2 Cyn y trothwy, ni ddylid darlledu iaith sy'n gryfach na 'chymedrol' heb gyfiawnhad arbennig. Wedi'r trothwy, gellir darlledu iaith gref gyda phwyll. Rhaid cael cyfiawnhad arbennig i ddarlledu'r iaith gryfaf ar bob achlysur.

3.2 Cyfryngau cymdeithasol

Rhaid cofio nad yw'r trothwy'n berthnasol wrth ystyried y platfformau ar-lein ac felly y platfform neu'r cyfrif penodol a ddefnyddir sydd yn bwysig, gan ystyried cynulleidfa debygol y cyfrifon penodol hynny.

- 3.2.1 **Cyfrifon corfforaethol S4C a chyfrifon ar gyfer rhaglenni teuluol (@s4c):** cofier fod y rhan fwyaf o gyfryngau cymdeithasol wedi'u targedu ar gyfer oedran 13+. Felly mae'n bosib, a thebygol, y bydd plant yn gweld neu'n gwylio cynnwys a gyhoeddir ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol S4C. Ond, nid yw disgwyliad y gynulleidfa mor llym â'i disgwyliadau ar gyfer cynnwys a ddarlledir ar deledu. Er hyn, disgwylir y bydd S4C yn cynnal safonau tebyg i safonau'r rhaglenni teledu ar y cyfrifon hyn oherwydd bod yna gysylltiad amlwg gyda'r gwasanaeth teledu.

Felly, awgrymir y dylid trin y cyfrifon hyn yn yr un modd â rhaglenni a ddarlledir ar-sgrin o gwmpas y trothwy. Nid yw'r gynulleidfa'n disgwyl llawer o newid i'r hyn a fyddai'n dderbyniol i'w ddarlledu cyn y trothwy, ond caniateir ychydig yn fwy o hyblygrwydd. Ni ddylid darlledu iaith sy'n gryfach na 'chymedrol' heb gyfiawnhad arbennig.

3.2.2 **Cyfrifon cysylltiedig â rhaglenni plant** (e.e. Tudalen Facebook Tag): gan fod y cynnwys yn gysylltiedig â rhaglenni i blant, dylid trin y cynnwys a gyhoeddir ar y cyfrifon hyn fel cynnwys a ddarlledir cyn y trothwy. Felly ni ddylid cynnwys unrhyw iaith nac ystumiau tramgwyddus sy'n gryfach na'r iaith 'gymedrol'.

3.2.3 **Cyfrifon gyda chynnwys aeddfed** (e.e. Hansh): Rhoddir llawer mwy o hyblygrwydd i'r cyfrifon hyn oherwydd y gynulleidfa darged. Mae disgwyliadau'r gynulleidfa'n medru bod yn dra gwahanol i'r platfformau a nodir uchod. Gellir felly trin y cynnwys a gyhoeddir ar y cyfrifon hyn mewn modd tebyg i'r cynnwys a ddarlledir ar ôl y trothwy ar deledu, ond gyda mwy o hyblygrwydd. Gellir cynnwys iaith gref, ond rhaid cael cyfiawnhad a chymeradwyaeth S4C i ddarlledu'r iaith gryfaf ar bob achlysur.

Mae'n bwysig bod unrhyw gyfrif o'r fath yn nodi rhybudd priodol ar y cyfrif ei hun. Yn ogystal, dylai pob fideo sy'n cynnwys iaith gref nodi rhybudd gyda'r geiriad: "Rhybudd: Rhegfeydd". Gan fod y rhan fwyaf o ddyfeisiadau'n caniatáu i fideos chwarae'n awtomatig, ni ddylai'r 10 eiliad cyntaf o unrhyw fideo gynnwys iaith dramgwyddus.

4. Canllaw Cyffredinol

Yn yr Atodiad ynghlwm, rydym wedi cynnwys rhestr o eiriau ac ystumiau sydd o bosib yn sarhaus. Dylid ystyried y rhestr fel arweiniad yn unig. Wrth asesu achosion unigol, dylid cadw'r canlynol mewn cof:

- a) Wrth asesu derbynioldeb yr iaith a'r ystum, dylid ystyried eu natur sarhaus yn eu cyd-destun ehangach (gweler adran 2 uchod am arweiniad pellach).
- b) Dylid ystyried y gynulleidfa debygol (gan nodi na chaiff pob sianel/cyfrwng eu hystyried yn yr un modd – gweler adran 3 uchod am arweiniad pellach) – ond mae'r gynulleidfa bosibl hefyd yn bwysig cyn y trothwy ar deledu.
- c) Mae'r trothwy teledu yn parhau i fod yn ffordd bwysig o ddiogelu plant, ond hefyd fel ffordd i helpu oedolion nad ydynt eisiau dod ar draws iaith dramgwyddus.
- ch) Cyn y trothwy 9yh, neu ar gyfrifon sy'n debygol o apelio at blant, dylai iaith sy'n 'dramgwyddus o bosib' fod yn berthnasol ac yn ateb diben – ac ni ddylai fod yn gryf iawn, yn ddireswm (*gratuitous*), ac ni ddylid ei ddefnyddio'n aml.
- d) Dylid trin iaith sy'n 'dramgwyddus o bosib' ac sy'n gysylltiedig â hil, rhywioldeb, hunaniaeth o ran rhywedd, ac anabled (h.y. iaith wahaniaethol) gyda'r gofal mwyaf.

- dd) Dylid ystyried beth sy'n dderbyniol i'r rhan fwyaf o wylwyr, tra'n diogelu lleiafrifoedd.
- e) Disgwylir safon uwch ar gyfer cynnwys sydd wedi ei recordio o flaen llaw nac ar gyfer darllediadau byw. Ond dylid cymryd camau rhesymol i osgoi iaith dramgwyddus yn ystod cynnwys byw a ddarlledir cyn y trothwy neu ar gyfrifon sy'n debygol o apelio at blant.
- f) Mae rhybuddion yn bwysig er mwyn i'r gynulleidfa ddeall beth i'w ddisgwyl, ac fe ddylai'r rhybuddion fod mor benodol ag sy'n briodol.

ATODIAD**RHAN 1 - Iaith An-Wahaniaethol**

1. Caiff yr iaith an-wahaniaethol ei chategoreiddio fel: iaith gymedrol (nid yw'n peri gofid), iaith ganolig (o bosib yn annerbyniol cyn y trothwy ar deledu ond yn dderbyniol ar ôl y trothwy), iaith gref (annerbyniol yn gyffredinol cyn y trothwy ar deledu ond yn dderbyniol ar y cyfan ar ôl y trothwy), a'r iaith gryfaf (annerbyniol iawn cyn y trothwy ar deledu ond yn gyffredinol yn dderbyniol ar ôl y trothwy).
2. Ar gyfer **rhegfeydd cyffredinol (Adran A isod)**, mae'r effaith emosiynol sy'n gysylltiedig â geiriau penodol yn bwysig. Yn arbennig, ystyrir geiriau fel '*fuck*' i fod ymysg yr iaith gryfaf ac yn annerbyniol cyn y trothwy, gyda geiriau fel hyn yn peri gofid i rai gwylwyr wedi'r trothwy lle'u defnyddir yn gyson.
3. Yn gyffredinol, ystyrir geiriau â chysylltiad clir i **rannau o'r corff (Adran A isod)** fel 'ffwrch' a '*cunt*' mewn ffordd gyfatebol i'r rhegfeydd cyffredinol mwy, neu mwyaf, tramgwyddus. Ond, mae nifer o wylwyr o'r farn bod geiriau llai ansensitif neu di-chwaeth fel '*tits*' yn fwy derbyniol cyn y trothwy.
4. Bernir **cyfeiriadau rhywiol (Adran B isod)** fel '*pricktease*' mewn modd tebyg i'r rhegfeydd cyffredinol mwy, neu mwyaf, tramgwyddus. Ystyrir geiriau fel hyn yn annymunol ac yn ddiangen yn aml, ond yn dderbyniol lle'u defnyddir ar ôl y trothwy yn unol â disgwyliadau'r gynulleidfa.
5. Ystyrir **ystumiau tramgwyddus (Adran C isod)** yn gyffredinol yn annerbyniol cyn y trothwy, ond yn dderbyniol gan fwyaf wedi'r trothwy. Yr ystum '*blow job*' yw'r lleiaf derbyniol oherwydd bernir taw hwn sy'n fwyaf di-chwaeth (*vulgar*).

A. Rhegfeydd cyffredinol a rhannau o'r corff

Gair	Derbynioldeb
Arglwydd	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Ast	Canolig, gall fod yn annerbyniol cyn 9. Tuedd ymosodol neu fwriad penodol i frifo yn achosi mwy o effaith.
Asuffeta	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Asu mawr	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Bastad	Iaith gref, yn annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol. Tuedd ymosodol neu fwriad penodol i frifo yn achosi mwy o effaith. Llai o broblem os yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio'n anuniongyrchol at rywun sy'n greulon neu'n gas.
Beic	Canolig, ond gall fod yn annerbyniol cyn 9. Defnydd mewn cyd-destun o hiwmor yn fwy derbyniol. Os mewn cyd-destun ymosodol neu fwriad penodol i frifo yna'n fwy annerbyniol.

Bitsh	Canolig, gall fod yn annerbyniol cyn 9. Tuedd ymosodol neu fwriad penodol i frifo yn achosi mwy o effaith.
Blydi	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol. Defnydd aml mewn iaith bob dydd i fynegi emosiwn, ac nid fel sarhad uniongyrchol fel arfer.
Bolycs	Canolig, ond gall fod yn annerbyniol cyn 9. Nid yw'n sarhaus yn gyffredinol ond braidd yn ddi-chwaeth (<i>vulgar</i>) lle defnyddir i gyfeirio at y ceilliau. Llai annerbyniol lle defnyddir i feddwl 'nonsens'.
Brych	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Bwced	Cryf. Ystyrir yn ddi-chwaeth ac annymunol.
Bygyr	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol. Defnydd aml mewn iaith bob dydd i fynegi emosiwn wrth wneud camgymeriad. Llawer cryfach os defnyddir mewn cyd-destun sy'n amlwg yn rhywiol.
Cachfa / Cachu	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Cachgi	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Cer i grafu	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Coc	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol. Ystyrir yn ddi-chwaeth ac annymunol gan lawer. Llai annerbyniol os defnyddir mewn cyd-destun o hiwmor.
Coc oen	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol. Ystyrir yn ddi-chwaeth ac annymunol gan lawer. Llai annerbyniol os defnyddir mewn cyd-destun o hiwmor.
Crap	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Cont / Contio	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol. Ystyrir yn ddi-chwaeth ac annymunol gan lawer. Llai annerbyniol os defnyddir mewn cyd-destun o hiwmor.
Cotsan / gotshan	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol. Ystyrir yn ddi-chwaeth ac annymunol gan lawer. Llai annerbyniol os mewn cyd-destun o hiwmor.
Cunt	Iaith gryfaf, yn annerbyniol i lawer hyd yn oed wedi 9. Di-chwaeth, dirmygus a syfrdanol i ddynion a menywod. Yn arbennig o annymunol a sarhaus i fenywod a phobl hŷn.
Cŵd	Canolig, ond gall fod yn annerbyniol cyn 9. Nid yw'n sarhaus yn gyffredinol ond braidd yn ddi-chwaeth (<i>vulgar</i>) lle defnyddir i gyfeirio at y ceilliau. Llai annerbyniol lle defnyddir i feddwl 'twpsyn'.
Damia/Damo	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.

Diawl	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Dic	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol. Ystyrir yn ddi-chwaeth ac annymunol gan lawer. Llai annerbyniol os mewn cyd-destun o hiwmor, ac fe'i ystyrir ychydig yn fwy cymedrol na 'coc'.
Dic 'ed	Iaith gryf, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol. Ystyrir yn ddi-chwaeth ac annymunol gan lawer. Llai annerbyniol os mewn cyd-destun o hiwmor.
Duw Duw / jiw jiw	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Ffani	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol. Di-chwaeth, yn enwedig o annerbyniol os yn cyfeirio at berson hoyw.
Effin	Canolig, ond gall fod yn annerbyniol cyn 9. Ystyrir yn ddoniol yn aml. Pobl hŷn yn fwy tebygol o'i ystyried yn annerbyniol.
Fflaps	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol. Di-chwaeth a dirmygus yn enwedig i fenywod.
Ffwrch	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol.
Fuck	Iaith gryfaf, annerbyniol cyn 9. Ystyrir yn gryf, ymosodol a di-chwaeth.
Ffycin 'el	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol. Llai annerbyniol os mewn cyd-destun o hiwmor.
Gash	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol. Di-chwaeth a dirmygus yn enwedig i fenywod.
Iyffach / Iesgob	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Jadan	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Jinjyr	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol. Ystyrir fel sarhad doniol yn gyffredinol, ond bydd tuedd ymosodol neu fwriad penodol i frifo yn achosi mwy o effaith.
Git	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol. Ystyrir fel sarhad doniol yn gyffredinol.
God	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol pan ddefnyddir i fynegi emosiwn. Peri gofid i bobl hŷn neu bobl sy'n fwy sensitif yn grefyddol pan ddefnyddir i fod yn anllad (<i>obscene</i>). Derbyn y gall sarhau pobl grefyddol.
Iesu Grist	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol pan ddefnyddir i fynegi emosiwn. Peri gofid i bobl hŷn neu bobl sy'n fwy sensitif yn grefyddol pan ddefnyddir i fod yn anllad (<i>obscene</i>). Derbyn y gall sarhau pobl grefyddol.

Lembo	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Llinyn trôns / llipryn	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Llo	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Llyfwr tân	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Nob	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol. Ystyrir yn ddi-chwaeth ac annymunol gan lawer. Llai annerbyniol os mewn cyd-destun o hiwmor, ac fe'i ystyrir ychydig yn fwy cymedrol na 'coc'.
Malu cachu	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Mingyr	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol. Ystyrir fel sarhad doniol yn gyffredinol. Annymunol yn hytrach na'n sarhaus. Tuedd ymosodol neu fwriad penodol i frifo yn achosi mwy o effaith.
Mwlsyn	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Penbwl	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Pen pidyn	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Pissed / pissed off	Canolig, ond gall fod yn annerbyniol cyn 9. Nid yw'n arbennig o sarhaus ond mwy problematig os defnydd ymosodol neu ailadroddus.
Piso ar ei chips / pisho pans	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Pric	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol. Llai annerbyniol os mewn cyd-destun o hiwmor.
Putain	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol. Ystyrir yn sarhaus.
Pwrs / pwrsyn	Canolig, ond gall fod yn annerbyniol cyn 9. Nid yw'n sarhaus yn gyffredinol.
Rhacsyn	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Racsan / Rhacsan	Canolig, ond gall fod yn annerbyniol cyn 9.
Rhech	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Sguthan	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Shit	Canolig, ond gall fod yn annerbyniol cyn 9. Iaith gyffredin a ddefnyddir mewn bywyd bob dydd ond yn broblematig os defnyddir yn ymosodol neu'n ailadroddus. Peri gofid am blant yn dysgu'r gair.
Tits	Canolig, ond gall fod yn annerbyniol cyn 9. Defnydd di-chwaeth neu mewn cyd-destun rhywiol yn cael mwy o effaith.

Twat	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol. Ystyrir yn ddi-chwaeth ac annymunol pan ddefnyddir fel cyfeiriad at y fagina. Llai problematig os defnyddir i ddisgrifio person anghwrtais neu annymunol, ond yn dal yn sarhaus o bosib.
Twmffat	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Twlsyn	Canolig, ond gall fod yn annerbyniol cyn 9.
Tyrdyn	Canolig, ond gall fod yn annerbyniol cyn 9.
Uffern dân	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.
Wew	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.

B. Cyfeiriadau Rhywiol

Gair	Derbynioldeb
Bonc / Boncio	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol. Fel arfer mewn cyd-destun o hiwmor. Mwy problematig i bobl hŷn.
Clynj	Iaith gref, annerbyniol cyn y trothwy yn gyffredinol. Ystyrir yn ddi-chwaeth ac yn amlwg rywiol, ond yn fwy derbyniol mewn cyd-destun o hiwmor.
Dildo	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol. Cyfeirio at y tegan rhywiol. Ystyrir yn annymunol, yn enwedig gan bobl hŷn. Creu teimlad anghyfforddus yn hytrach na sarhad.
Dyrnu	Cyfeirio at gael rhyw neu fastyrbio. Canolig, ond gall fod yn annerbyniol cyn 9, yn enwedig os yn defnyddio mewn modd ymosodol.
Fflanj	Iaith gref, annerbyniol cyn y trothwy yn gyffredinol. Ystyrir yn ddi-chwaeth ac yn amlwg rywiol, ond yn fwy derbyniol mewn cyd-destun o hiwmor.
Ffwrcho	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol.
Ffycio	Iaith gryfaf, annerbyniol cyn 9. Ystyrir yn gryf, ymosodol a di-chwaeth. Pobl hŷn yn fwy tebygol o'i ystyried yn annerbyniol.
Halio / Haliad / Haliwr	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol.
Hwren / Hŵr / Hwrio	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol. Ystyrir yn ddirmygus tuag at fenywod yn gyffredinol.
Pricktease	Iaith gref, annerbyniol cyn y trothwy yn gyffredinol. Ystyrir yn ddi-chwaeth ac yn amlwg rywiol. Peri mwy o ofid ymysg menywod.

Pwdin blew	Iaith gref, annerbyniol cyn y trothwy yn gyffredinol. Ystyrir yn ddi-chwaeth ac yn amlwg rhywiol, ond yn fwy derbyniol mewn cyd-destun o hiwmor.
Pwnio	Cyfeirio at gael rhyw. Canolig ond gall fod yn annerbyniol cyn 9, yn enwedig os yn defnyddio mewn modd ymosodol.
Rimio	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol.
Shelffo	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol. Fel arfer mewn cyd-destun o hiwmor. Mwy problematig i bobl hŷn.
Slag	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol. Ystyrir yn sarhaus yn enwedig gan fenywod.
Slwt / Slwten	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol. Ystyrir yn ddirmygus tuag at fenywod yn gyffredinol.
Twll	Cyfeirio at organ rhywiol merch. Canolig, ond gall fod yn annerbyniol cyn 9.
Wanc	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol.
Wancar / Wancyr	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol. Tuedd ymosodol neu fwriad penodol i frifo yn achosi mwy o effaith.
Wiwar	Cyfeirio at organ rhywiol merch. Canolig, ond gall fod yn annerbyniol cyn 9. Yn fwy derbyniol mewn cyd-destun o hiwmor.

C. Ystumiau Tramgwyddus

Ystum	Derbynioldeb
<i>Blow job</i>	Ystum cryf. Annerbyniol yn gyffredinol cyn 9. Ystyrir yn ddi-chwaeth ac yn amlwg rhywiol.
Bys canol	Ystum canolig, yn annerbyniol cyn 9 o bosib. Llai problematig mewn cyd-destun o hiwmor. Ychydig yn fwy cryf na'r ystum 'dau fys'.
Dau fys	Ystum canolig, yn annerbyniol cyn 9 o bosib. Llai problematig mewn cyd-destun o hiwmor.
Dau fys gyda thafod (<i>cunnilingus</i>)	Ystum cryf. Annerbyniol yn gyffredinol cyn 9. Ystyrir yn ddi-chwaeth ac yn amlwg rhywiol.
<i>Iberian slap</i>	Ystum canolig, yn annerbyniol cyn 9 o bosib. Llai problematig mewn cyd-destun o hiwmor.
Wancyr	Ystum cryf. Annerbyniol yn gyffredinol cyn 9. Ystyrir yn ddi-chwaeth ac yn amlwg rhywiol.

RHAN 2 - Iaith Wahaniaethol

1. Mae gan wylwyr agwedd wahanol at dderbynioldeb y math hyn o dermau. Yn gyffredinol, ystyrir iaith wahaniaethol yn fwy problematig na iaith sy'n sarhaus yn gyffredinol. Roedd sawl un o ymatebwyr ymchwil Ofcom yn ystyried bod yr iaith wahaniaethol ar ei ffurf cryfaf yn annerbyniol o bosib cyn ac ar ôl y trothwy ar deledu (er roedd cyd-destun yn ffactor bwysig). Felly rhaid cymryd gofal arbennig cyn darlledu'r iaith gryfaf yn y categori wahaniaethol.
2. Yn wahanol i'r ffurfiau eraill o iaith wahaniaethol, nid yw'r termau sydd o bosib yn sarhaus i **hen bobl (Adran Ch isod)** yn peri cymaint o ofid. Gall y rhain fod ychydig yn annymunol i wylwyr hŷn, ond mae nifer (o ystod o oedrannau) yn ystyried nad yw'r termau hyn yn sarhaus, a'u bod yn ddoniol i ryw raddau.
3. Mae'r geiriau sy'n gwahaniaethu ar sail **crefydd** yn anghyfarwydd i nifer o wylwyr, ac felly nid ydym wedi rhestru unrhyw dermau penodol yma. Ond, i'r sawl sy'n adnabod termau megis 'Taig' a 'Fenian' (Gogledd Iwerddon) maent yn sarhaus ac yn annerbyniol o bosib.
4. Mae safbwyntiau ar eiriau sy'n gysylltiedig â **iechyd meddwl ac abledd corfforol (Adran D isod)** yn amrywio'n fawr. Ystyrir geiriau fel 'spaz', 'mong' neu 'retard' yn sarhaus a dirmygus, ac felly'n annerbyniol yn yr un modd â'r sarhad hiliol cryfaf, gyda'u defnydd yn gofyn am gyfiawnhad sylweddol o ran cyd-destun. Ar y llaw arall, ystyrir geiriau fel 'nytyr' a 'mental' yn yr un modd â sarhad mwy cymedrol a ddefnyddir yn aml, ac felly'n llawer mwy derbyniol, cyn ac ar ôl y trothwy ill dau.
5. Ystyrir y termau **homoffobaidd a thrawsffobig (Adran Dd isod)** cryfaf fel 'ffagot' a 'homo' i fod yn broblematig iawn ymysg gwylwyr. Mae hyn eto oherwydd natur sarhaus a dirmygus yr iaith. Ystyrir y geiriau hyn i fod yn llawer llai derbyniol na rhegfeydd cyffredinol.
6. Mae **iaith hiliol (Adran E isod)** fel 'goliwog' a 'nigger' ymysg y geiriau mwyaf annerbyniol ar y cyfan. Fe'u hystyrir yn ddirmygus, gwahaniaethol a sarhaus. Roedd nifer o banelwyr ymchwil Ofcom yn poeni am ddefnydd y geiriau hyn ar unrhyw adeg, gyda'u defnydd yn gofyn am gyfiawnhad sylweddol o ran cyd-destun. Mae geiriau eraill yn y categori hwn yn fwy o destun sgwrs, ac mae gan wylwyr safbwyntiau gwahanol ar eu derbynioldeb ar ôl y trothwy, yn seiliedig ar ba mor sarhaus y'u hystyrir.

Ch. Hen Bobl

Gair	Derbynioldeb
<i>Coffin dodger</i>	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol. Ystyrir yn ddoniol, gan bobl hŷn yn ogystal.
Hen wrach	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol.

D. Cyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth o ran Rhywedd

Gair	Derbynioldeb
Bendyr	Iaith gref, annerbyniol cyn 9 yn gyffredinol. Ystyrir yn hen-ffasiwn ond yn ddirmygus i ddynion hoyw.
Ffagot	Iaith gryfaf, annerbyniol iawn heb gyfiawnhad cryf o ran cyd-destun. Ystyrir yn ddirmygus i ddynion hoyw ac yn hynod o sarhaus.
Ffani	Iaith gref, annerbyniol yn gyffredinol. Hen-ffasiwn ond ystyrir yn ddirmygus i bobl hoyw lle defnyddir fel sarhad.
Gay	Nid yw'n broblematic wrth ddisgrifio hoywder mewn termau cyffredinol. Ond yn peri gofid lle defnyddir mewn modd ddirmygus neu i feddwl rhywbeth gwael neu ddiflas.
Homo	Iaith gref, annerbyniol yn gyffredinol. Hen-ffasiwn ond ystyrir yn ddirmygus i bobl hoyw lle defnyddir fel sarhad.
Lesbo	Iaith gref, annerbyniol yn gyffredinol. Hen-ffasiwn ond ystyrir yn ddirmygus i bobl hoyw lle defnyddir fel sarhad. Ond gellir ei ddefnyddio gan fenywod hoyw mewn modd ysgafn.
Nansi	Iaith gref, annerbyniol yn gyffredinol. Hen-ffasiwn ond ystyrir yn ddirmygus i ddynion hoyw lle defnyddir fel sarhad.
Pansi / Pansan	Canolig, annerbyniol o bosib. Hen-ffasiwn ond ystyrir yn ddirmygus i ddynion hoyw lle defnyddir fel sarhad.
Pwff	Iaith gref, annerbyniol yn gyffredinol. Hen-ffasiwn ond ystyrir yn ddirmygus i ddynion hoyw lle defnyddir fel sarhad.
Trani	Iaith gref, annerbyniol yn gyffredinol. Sarhaus iawn lle defnyddir mewn ffordd ddirmygus i gyfeirio at berson trans.

Dd. Iechyd Meddwl ac Abledd Corfforol

Gair	Derbynioldeb
Dif	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol. Derbyniol gan fwyaf lle defnyddir i gyfeirio at dwpdra mewn modd ysgafn neu ddoniol. Peri ychydig o bryder lle defnyddir y term mewn modd ddirmygus o bobl gydag anableddau dysgu.
Mental	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol. Derbyniol gan fwyaf lle defnyddir i gyfeirio at dwpdra mewn modd ysgafn neu ddoniol. Peri ychydig o bryder lle defnyddir y term mewn modd ddirmygus o bobl gyda phroblemau iechyd meddwl, yn enwedig ymysg pobl anabl.
Midget	Canolig, annerbyniol o bosib. Ystyrir yn hen-ffasiwn ond hefyd yn ddirmygus o bobl

	sydd â thyfiant cyfyngedig pan ddefnyddir mewn modd sarhaus. Peri mwy o ofid i bobl anabl.
Mong	Iaith gryfaf, annerbyniol iawn heb gyfiawnhad cryf o ran cyd-destun. Ystyrir yn ddirmygus a hynod o sarhaus yn gyffredinol.
Nytyr	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol. Mwyaf derbyniol lle defnyddir i gyfeirio at dwpdra mewn modd ysgafn neu ddoniol. Peri ychydig o bryder lle defnyddir y term mewn modd ddirmygus o bobl gyda phroblemau iechyd meddwl.
Retard	Iaith gryfaf, annerbyniol iawn heb gyfiawnhad cryf o ran cyd-destun. Ystyrir yn ddirmygus a hynod o sarhaus yn gyffredinol.
Sbeshal	Canolig, annerbyniol o bosib. Ystyrir yn ddirmygus i'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl pan ddefnyddir fel sarhad. Peri mwy o bryder i bobl anabl.
Seico (Psycho)	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol. Mwyaf derbyniol lle defnyddir i gyfeirio at ymddygiad anghyson mewn modd ysgafn neu ddoniol. Peri ychydig o bryder lle defnyddir y term mewn modd ddirmygus o bobl gyda phroblemau iechyd meddwl.
Slo	Canolig, annerbyniol o bosib. Derbyniol gan fwyaf lle defnyddir i gyfeirio at dwpdra mewn modd ysgafn neu ddoniol. Peri mwy o bryder lle defnyddir y term mewn modd ddirmygus o bobl gyda phroblemau iechyd meddwl, yn enwedig ymysg pobl anabl.
Spaz	Iaith gryfaf, annerbyniol iawn heb gyfiawnhad cryf o ran cyd-destun. Ystyrir yn ddirmygus a hynod o sarhaus i bobl â phroblemau iechyd meddwl yn gyffredinol. Sarhaus iawn i bobl anabl.

E. Hil ac Ethnigrwydd

Gair	Derbynioldeb
Chink	Iaith gryfaf, annerbyniol iawn heb gyfiawnhad cryf o ran cyd-destun. Ystyrir yn ddirmygus a hynod o sarhaus i bobl Tsieineaidd. Safbwyntiau mwy cymysg lle defnyddir y term i olygu ' <i>Chinese Takeaway</i> '.
Goliwog	Iaith gryfaf, annerbyniol iawn heb gyfiawnhad cryf o ran cyd-destun. Ystyrir yn ddirmygus i bobl ddu.
Jipo	Iaith o dan ddadl. Ystyrir gan rai i fod yn ddirmygus a sarhaus, yn awgrymu arwyddocâd negyddol gyda Sipsiwn a Theithwyr. Eraill yn ei ystyried yn llai problematig. Pobl o'r gymuned deithiol yn ei ystyried yn sarhaus iawn.
Jap	Iaith gref, annerbyniol yn gyffredinol. Ystyrir yn ddirmygus i bobl Siapaneaidd pan ddefnyddir fel sarhad. Rhai yn ei ystyried yn dderbyniol pan ddefnyddir fel talfyfyriad o 'Siapaneaidd'.
Nazi	Cymedrol. Nid yw'n peri gofid yn gyffredinol. Derbyniol fel disgrifiad ffeithiol wrth drafod yr Almaen o dan Hitler, ac hefyd grwpiau adain-dde eithafol wedi hynny. O

	bosib yn sarhaus os y'i ddefnyddir mewn cyd-destun modern i sarhau pobl Almaenaidd.
Nigger	Iaith gryfaf, annerbyniol iawn heb gyfiawnhad cryf o ran cyd-destun. Ystyrir yn ddirmygus i bobl ddu.
Padi	Canolig, annerbyniol o bosib. Ystyrir yn hen-ffasiwn. Derbyniol mewn cyd-destun o hiwmor. Llai derbyniol pan ddefnyddir i sarhau pobl Wyddelig.
Paki	Iaith gryfaf, annerbyniol iawn heb gyfiawnhad cryf o ran cyd-destun. Ystyrir yn ddirmygus i bobl o Bakistan.
Sais	Canolig, annerbyniol o bosib. Derbyniol fel disgrifiad ffeithiol wrth drafod pobl o Loegr. Llai derbyniol pan ddefnyddir i sarhau pobl Saesneg neu bobl di-Gymraeg.
Taff	Canolig, annerbyniol o bosib.